**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd Dydd Llun 15fed Rhagfyr 2008 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Wrecsam. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**YN BRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| R M Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| W P Roberts | Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy |
| M Thomas | Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); P Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Sicrwydd Gweithredol); D Docx (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Adnoddau); R Simmons (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Sefydliad a Threfnu Pobl); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); I Williams (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); R Powell (Swyddfa Archwilio Cymru); K Smith (Atal Tân); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd y Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| R Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Fe gynghorydd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi eu cyflwyno i'r Clerc eu hystyried.

2 COFNODION

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 20fed Hydref 2008;

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodion.**

2.3 Cyflwynwyd y cofnodion canlynol i'r Panel Gweithredol er dibenion gwybodaeth:

ii cyfarfod a gynhaliwyd ar 22ain Medi;
iii cyfarfod a gynhaliwyd 17eg Tachwedd 2008

2.4 Nodwyd nad oedd cofnodion y Panel Gweithredol ar gyfer 17eg Tachwedd wedi eu mabwysiadu'n ffurfiol ond fe'u cyflwynwyd i'r Awdurdod fel gofynnwyd yn y cyfarfod diwethaf (cofnodion 12.4).

2.5 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

3 MATERION SY'N CODI

3.1 Doedd dim materion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

4 APWYNTIO DIRPRWY BRIF SWYDDOG TÂN

4.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau o ganlyniadau'r broses i apwyntio Dirprwy Brif Swyddog Tân. Roedd dau ymgeisydd wedi ymgeisio ac wedi cael cyfweliad gyda'r ddau o ansawdd uchel iawn.

4.2 Gofynnodd y Cynghorydd George os oedd cyflogau, gweinyddiaeth a'i iaith Gymraeg yn cyfyngu'r nifer o ymgeiswyr am swyddi uchel o fewn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. O bersbectif Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fe eglurodd y Prif Swyddog Tân mae'r achosion fwyaf tebygol dros y nifer isel o ymgeiswyr oedd amharodrwydd pobl i symud oherwydd ymrwymiadau teulu. Nododd y Clerc dueddiadau o fewn recriwtio a nododd fod lleoliad, apêl y swydd, rhagolygon symud ymlaen mewn swydd, tâl ac amodau a thermau ac enw da'r corff sy'n cyflogi fel ffactorau wrth farchnata recriwtio.

4.3 **Cefnogodd yr Aelodau ganlyniadau'r broses gyfweld a llongyfarch Dawn Docx ar ei phenodiad.**

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ar y digwyddiadau a chyfarfodydd yr oedd ef a'r Is-gadeirydd wedi eu mynychu ers cyfarfod mis Hydref.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 CYLLIDEB DDRAFFT 2009-10

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn am gymeradwyaeth Aelodau i'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2009-10.

6.2 Cyflwynodd y Trysorydd y papur gan egluro fod yr adroddiad yn cynnwys cynigon ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2009-10, rhagolygon ar gyfer 2019-11 a 2011-12.

6.3 Nodwyd fod y Portffolio Benthyciad wedi ei aildrefnu ac wedi golygu arbedion mewn costau llog ar gyfer 2009-10 o £78k a £35k yn y flwyddyn ariannol bresennol.

6.4 Eglurodd y Trysorydd y tri opsiwn oedd ar gael ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf. Nid oedd yn argymell opsiwn 1; roedd opsiynau 2 a 3 yn defnyddio darpariaethau a thanariannu ond fe'u hystyriwyd fel opsiynau dichonadwy.

6.5 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, nodwyd y gellir gohirio ailfodelu gorsafoedd Betws y Coed a Glannau Dyfrdwy oherwydd na arwyddwyd unrhyw gytundebau ar gyfer y gwaith hwn.

6.6 Nodwyd fod trafodaethau ar fynd gyda'r Cynulliad ynglŷn â Firelink. Byddai'r Cynulliad yn talu costau'r flwyddyn gyntaf, fodd bynnag, nid oedd ariannu'r blynyddoedd yn y dyfodol wedi eu pennu eto.

6.7 Eglurwyd mai'r rheswm dros y cynnydd mewn gwariant ar ffioedd asiantaeth oedd fod gwaith wedi cael ei anfon allan ar ddeddf cyflogaeth i ddelio gyda materion o gwmpas disgyblaeth a chwynion. Roedd mwy o archwiliadau a disgyblu yn cael ei wneud a bydd cytundeb yn ei le'n fuan gyda Heddlu Gogledd Cymru er mwyn iddynt allu gwneud peth o'r gwaith. Roedd y cynnydd yng nghymhlethdod yr achosion yn golygu fod perygl na fyddai'r Gwasanaeth yn delio gyda'r holl faterion yn gywir ac felly byddai'r rhain yn cael eu hanfon allan lle bynnag posib. Bydd hyn yn golygu arbedion mewn amser swyddogion yn hytrach nad arian.

6.8 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, eglurodd y Prif Swyddog Tân fod rhaglen amnewid y fflyd ar gyfer cerbydau a thendrau dŵr (peiriannau tân). Mae peiriannau tân yn cael eu hamnewid ar raglen amnewid 15 mlynedd. Mae'r rhaglen amnewid cerbydau ysgafn yn cael ei adolygu, ond gyda'r cynnydd mewn archwiliadau diogelwch cymunedol, mae angen cerbydau ychwanegol. Fodd bynnag, bydd y nifer o gerbydau'n cael eu cadw i leiafswm lle bynnag posib.

6.9 Hysbysodd y Clerc yr Aelodau o bryder cynyddol am fodd gwasgaredig a chyfyngedig arian y Cynulliad ar gyfer diogelwch cymunedol; roedd penderfyniadau grantiau yn cael eu cyhoeddi'n eithaf hwyr yn aml, oedd yn achosi anhawster i bartneriaethau gynllunio o flaen llawn.

6.10 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2009-10 yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad;**

**(ii) fod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael eu cynghori o'r cyfraniadau dros dro sydd eu hangen ar gyfer 2009-10;**

**(iii) cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf drafft ar gyfer 2009-10 a dulliau cysylltiedig o ariannu;**

**(iv) cytuno os oedd unrhyw newidiadau yn dod i'r fei fyddai'n lleihau'r gyllideb cyn 15 Chwefror 2009, byddai'r pwerau i newid lefel y gyllideb yn cael ei ddirprwyo i'r Cadeirydd, Prif Swyddog Tân, Clerc a Thrysorydd.**

7 ALLDRO CYFALAF DROS DRO 2008/09

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi alldro cyfalaf dros dro amcangyfrifed i Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-2009.

7.2 Eglurai Mrs Docx fod rhaid gwario'r refeniw o fewn blwyddyn ond y gellir cario arian cyfalaf drosodd.

7.3 Gofynnodd y Cynghorydd George am hanes unrhyw ddatblygiadau ar orsaf dân Wrecsam gan ei fod yn Gynghorydd Wrecsam. Eglurwyd fod prosiect Wrecsam wedi ei oedi ar hyn o bryd nes oedd y partneriaid eraill yn barod i symud ymlaen. Nodwyd mai prosiect ar y cyd oedd y ffordd orau ymlaen ac a fyddai'n fwydaf buddiol i'r gymuned. Anfonwyd llythyr ar y cyd i'r Cynulliad yn gofyn am iddynt ganiatáu'r i'r prosiect symud yn ei flaen ond ni dderbyniwyd ymateb.

7.4 Cynigwyd ac eiliwyd fod Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Heddlu Gogledd Cymru yn cyfarfod gyda'r Gweinidog er mwyn gyrru'r prosiect yn ei flaen, ond pan fo'r amser yn addas. Byddai'r gwariant cyfalaf yn helpu'r economi leol hefyd.

7.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2007/08 A CHYNLLUN RHEOLEIDDIO 2008-09

8.1 Fe gyflwynodd Rob Powell o Swyddfa Archwilio Cymru lythyr archwilio blynyddol a chynllun rheoleiddio i Aelodau. Diolchodd Mr Powell y Prif Swyddog Tân, Mrs Docx a'i thîm am eu cymorth.

8.2 Tynnodd Mr Powell sylw'r aelodau at y pwyntiau canlynol:

(i) mae rhai ardaloedd o'r systemau ariannol angen gwelliannau parhaol;
(ii) nododd byddai system gofnodi archwiliadau diogelwch cymunedol yn ei lle erbyn diwedd 2009;
(iii) mae gan yr Awdurdod record dda o weithredu o fewn ei gyllideb refeniw;
(iv) roedd pwysau ariannol dros y blynyddoedd nesaf yn cynnwys gwerthuso swyddi a chyflog cyfartal, Firelink a Rheoli Gallu Tymor Hir;
(v) materion yn ymwneud â darpariaethau a chronfeydd;
(vi) blaenoriaeth i'r Awdurdod fydd gweithredu argymhellion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân i ostwng y lefel o farwolaethau tân damweiniol. Mae'r gwaith ar fynd ar hyn o bryd ac yn cael ei fonitro'n agos gan y Prif Swyddog Tân;
(vii) sicrhau fod yr Awdurdod yn parhau i ddatblygu ei ymagwedd i gefnogi gweithrediad y Cynllun Lleihau Risg yn effeithiol. Nodwyd fod gweithgor gorchwyl wedi cael ei sefydlu a'i fod yn cwrdd yn rheolaidd, oddeutu pob 3 wythnos;
(viii) nodwyd fod yr Awdurdod yn ystyried adroddiad ar graffu a threfniadau archwilio yn hwyrach yn y cyfarfod;
(ix) mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at Freinlen Cefnogi a Datblygu Aelodau CLlLC.

8.3 Roedd y Clerc wedi cyfarfod gydag Awdurdodau Tân ac Achub eraill ac wedi cytuno fod angen teilwra trefniadau craffu i fod yn addas i drefniadau Awdurdodau Tân ac Achub yn hytrach na'r un systemau ag awdurdodau lleol.

8.4 Nodwyd fod offer hunanasesu'r Awdurdod wedi gwella rheoliad y fflyd ac yn parhau i drafod cyfraddau prynu is lle bynnag sy'n bosib.

8.5 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhawyd na ellir trafod y ffioedd archwilio. Fodd bynnag, yn nhermau atebolrwydd a thryloywder, teimlai'r Aelodau y byddai'n defnyddiol cael dadansoddiad o'r gwaith ymgymrwyd ag ef i gyfiawnhau'r gost. Cynghorodd y Clerc fod y ffi yn eithaf isel (o gymharu â chyrff cyhoeddus eraill) am y swm o waith wnaed yn seiliedig ar risg.

8.6 Aeth Mr Powell ymlaen i'r cynllun rheoleiddio. Bydd yr archwilydd yn ymgymryd â gwaith ar effeithiolrwydd a rheoleiddio ac yn archwilio'r cynllun gwella. Bydd ffocws ar y gwaith wnaed mewn perthynas â Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân.

8.7 £54k + TAW fydd y ffi. Mae grant gan WPI yn golygu bydd peth o'r gwaith yn rhad ac am ddim, e.e. rheoli asedion, gwaith adeiladau o dan Creu'r Cysylltiadau.

8.8 **PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r Llythyr Archwilio Blynyddol a Chynllun Rheoleiddio Drafft**

9 ATAL TÂN CYMRU

9.1 Rhoddodd Kim Smith, Prif Weithredwr Atal Tân Cymru wybodaeth ar yr elusen.

9.2 Mae Atal Tân yn gweithio gyda'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ac am sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth i'r ymgyrchoedd yn y modd mwyaf effeithiol ac yn gallu cydlynu gweithgareddau newydd lle mae bylchau a lle mae ymagwedd Cymru gyfan yn fwyaf effeithiol. Arweinir gwaith yr elusen gan flaenoriaethau Fframwaith y Gwasanaeth Tân newydd a phrif flaenoriaethau adrannau Diogelwch Cymunedol y Gwasanaethau Tân ac Achub. Bydd ei weithgareddau yn targedu'r rhai hynny sydd mewn pwyaf o beryg rhag tân a'r rhai sydd anoddaf i'w cyrraedd gan ymgyrchoedd diogelwch tân confensiynol.

9.3 Mae'r elusen yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau sy'n cynnwys -

- Cydlynu ymgyrch "Fflach Tân', fydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a phrofi larymau mwg yn y dyfodol. Bydd grant Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei ostwng gan 2/3 y flwyddyn nesaf felly bydd rhaid i'r elusen fforio am ffynonellau amgen o arian i'r prosiect.
- Partneriaeth gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub, elusen ymwybyddiaeth ysmygu ASH a iechyd y cyhoedd i gyflwyno gwybodaeth "lleihau risg" i gartrefi lle mae pobl yn ysmygu. Bydd hwn yn amodol ar

fonitro a gwerthuso cadarn i adnabod newidiadau mewn ymddygiad fydd yn golygu llai o danau sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn y cartref yng Nghymru gobeithio.

- Partneriaeth gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub a Lloyds TSB i hyrwyddo'r negeseuon diogelwch tân dros gyfnod y Nadolig.
- Hwyluso Fforwm Ymgysylltu gydag Ieuenctid y Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gweithio gyda phobl ifanc drwy Gymru i alluogi rhannu arferion da ac ymagwedd Cymru gyfan i bolisi, achredu cynlluniau a hyfforddi staff y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Cyfranogi mewn nifer o rwydweithiau gan gynnwys y Grŵp Lleihau Llosgi Bwriadol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghrair Rheoli Tybaco Cymru

9.4 Mae Atal Tân yn hysbysebu am swyddog polisi ac ymchwilio ar hyn o bryd ac yn y dyfodol bydd yn canolbwyntio ar gasglu a dadansoddi data tân sydd ar gael yng Nghymru i adnabod tueddiadau, gan dynnu tystiolaeth o'r strategaethau atal tân mwyaf effeithiol yng Nghymru a thu hwnt ac yn comisiynu mwy o werthuso ac ymchwil i'w helpu hysbys polisi ac arfer da.

9.5 Bydd yr elusen yn parhau i fforio cyfleoedd i atynnu arian o amrywiaeth o ffynonellau ac mewn safle dda i gomisiynu gweithgareddau diogelwch tân ac atal penodol ellir eu harddangos er mwyn cael effaith.

9.6 Bydd Atal Tân yn parhau i edrych ar fentrau fydd fwyaf effeithiol i Gymru wrth gydnabod efallai fydd rhai mentrau fydd yn gweithio'n well yn lleol.

9.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd**

10 ADOLYGIAD CYFANSODDOL

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i gynnig argymhellion i barhad y Panel Gweithredol a'r ffurfiad o Bwyllgor Archwiliad fel canlyniadau i'r adolygiad cyfansoddol.

10.2 Eglurodd y Clerc, oherwydd nad oedd gan y Panel Gweithredol bwerau gwneud penderfyniadau, ond yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod, does dim angen mawr am graffu fel mewn awdurdodau unedol. Fodd bynnag, mae'r angen am bwyllgor archwilio wedi cael ei amlygu gan Swyddog Archwilio Cymru ac yn cael ei gadarnhau gan y Clerc a'r Trysorydd fel arfer da.

10.3 Mynegodd y Prif Swyddog Tân bryder am allu cydweithwyr yng Nghonwy i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i'r Awdurdod a bod adnoddau o fewn y Gwasanaeth ar gynhwysedd llawn ar hyn o bryd.

10.4 Mewn ymateb i gwestiwn Aelodau am y cyfle i herio cofnodion y Panel Gweithredol, cadarnhawyd y byddai'n bosib gwneud hyn drwy weithdrefn

galw i mewn os yn gritigol. Mynegodd Aelodau eraill bryder am y weithdrefn alw i mewn ac fe gymrwyd os byddai'r Panel Gweithredol yn gwneud penderfyniad mae cyfnod 5-7 diwrnod i'r Awdurdod eu hystyried a'u hadolygu os oes angen.

10.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) cadw'r Panel Gweithredol ac ail fabwysiadu cylch gorchwyl;**

**(ii) os fydd y Panel Gweithredol yn gwneud penderfyniadau yn hytrach nag argymhellion, bydd cyfle i'r Awdurdod llawn eu hystyried a'u hadolygu os oes angen o fewn 5-7 diwrnod o'r cyfarfod;**

**(iii) apwyntio Pwyllgor Archwilio fydd yn effeithiol o flwyddyn ddinesig 2009/10**

**(iv) bod aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys aelodau anweithredol;**

**(v) apwyntio Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor o wahanol awdurdodau cyfansoddol er budd cynrychioliadau cymunedau Gogledd Cymru;**

**(vi) mae gan y Pwyllgor pedair prif swydd archwilio a chraffu llywodraethol, archwiliad a chraffu rheolaeth ariannol ac adnoddau, archwilio a chraffu rheolaeth risg a sicrwydd ac archwilio a chraffu perfformiad;**

**(vii) mae'r Pwyllgor yn tybied rolau a chyfrifoldebau cyfansoddol arolwg a chraffu;**

**(viii) mae gan y Pwyllgor raglen waith yn unol â'i gylch gorchwyl a chylchred adrodd yr Awdurdod (e.e. y gylched gyllid, cylched cynllunio i wella);**

**(ix) mae'r Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dwywaith pob blwyddyn ddinesig;**

**(x) mae gan y Pwyllgor y gallu i sefydlu grwpiau gorchwyl cyfyngedig i amser i ymgymryd ag adolygon a'r disgresiwn i gyfethol aelodau Gweithredol gydag arbenigedd perthnasol ar y grwpiau hyn; ac**

**(xi) mae'r Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Clerc i asesu anghenion adnoddu (ysgrifenyddiaeth a chyngor proffesiynol) y Pwyllgor Archwilio.**

11 BWRDD YR IAITH GYMRAEG: ADRODDIAD MONITRO

11.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu'r Aelodau fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi derbyn adborth cadarnhaol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2007-08.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

12 BREINLEN CYMRU I GEFNOGI A DATBLYGU AELODAU: DIWEDDARIAD

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ddiweddaru Aelodau ar gynnydd Breinlen Cefnogi a Datblygu Aelodau. Gofynnwyd i Aelodau enwebu 'pencampwr' i noddi'r strategaeth a'r rhaglen.

12.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd;**

**(ii) gefnogi aelodaeth grŵp gorchwyl y Pencampwyr (ers y cyfarfod, cadarnhawyd bod y Cynghorydd G James yn cymryd lle'r Cynghorydd B Dunn ar y grŵp) ;**

**(iii) enwebu'r Cynghorydd S Frobisher fel 'hyrwyddwr' i noddi'r strategaeth a'r rhaglen;**

**(iv) cytunodd Aelodau i gwblhau a dychwelyd y ffurflen adolygu datblygiad busnes a holiadur hyfforddiant a datblygu'r Swyddog Cyswllt Aelodau erbyn 31/12/08.**

13 CYLCHGRAWN ER GWYBODAETH

13.1 Cyflwynwyd y rhifyn diweddaraf o Er Gwybodaeth i aelodau. Tynnodd y Prif Swyddog Tân sylw'r Aelodau at yr erthygl am deulu dyn o Benyffordd fu farw mewn tân, sydd nawr yn gweithio gyda'r Gwasanaeth i hyrwyddo'r neges o ddiogelwch tân.

13.2 **PENDERFYNWYD derbyn y cyhoeddiad.**

14 DYDDIADAU CYFARFODYDD

14.1 Darparwyd dyddiadau o gyfarfodydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol ar gyfer 2009.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi dyddiadau'r cyfarfodydd.**